Mawrth 2022

**Templed Ymateb i Geisiadau Cynllunio ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol – Canllawiau**

## Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y nodiadau hyn gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) i arwain y gwaith o lunio ymateb gan fwrdd iechyd lleol i gais cynllunio ar gyfer datblygiad mewn ardal leol. Mae'r nodiadau hyn yn rhoi'r cefndir a'r canllawiau ar gyfer defnyddio'r templed cysylltiedig (Atodiad 1).

Bydd angen cytuno'n lleol ar y mecanwaith ar gyfer ymatebion a'r templed a ddefnyddir ar gyfer sylwadau, a gallai fod yn ddefnyddiol llunio cytundeb gweithio rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd at y diben hwn. Bydd angen system ar gyfer cymeradwyo a chyflwyno ymatebion o fewn y bwrdd iechyd.

O dan ddeddfwriaeth gynllunio yng Nghymru, mae byrddau iechyd lleol yn ymgyngoreion anstatudol yn y broses ceisiadau cynllunio. Fodd bynnag, gellir eu cynnwys fel ymgyngoreion ar geisiadau penodol lle mae'n debygol y bydd effaith iechyd a llesiant sylweddol ar boblogaeth leol, neu os yw'n gais am gyfleuster iechyd neu ofal cymdeithasol. Gall byrddau iechyd hefyd wneud sylwadau ar geisiadau nad ymgynghorir yn uniongyrchol â hwy amdanynt, os ydynt yn nodi goblygiadau negyddol i iechyd neu os ydynt yn cael cyfle i gynnwys elfennau hybu iechyd mewn datblygiad.

## Cynlluniau Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol

Rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r cynllun hwn yn llywio datblygiad ardal leol dros gyfnod o amser, ac yn darparu'r polisïau y mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad gydymffurfio â nhw er mwyn cael ei gymeradwyo Caiff hyn ei lunio gan gynlluniau datblygu cenedlaethol a rhanbarthol sef: Cymru'r Dyfodol, y Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru a Chynlluniau Datblygu Strategol (SDP). Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol fod ar gael ar wefannau awdurdodau lleol, ond os oes unrhyw anawsterau wrth ddod o hyd iddynt neu eu darllen, dylid cysylltu â swyddogion cynllunio polisïau. Pan fydd byrddau iechyd yn cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio, dylent fod yn gyfarwydd â'r Cynllun Datblygu.

Mae'n bosibl y bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol bolisïau ynghylch darpariaeth gofal iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd, cyfleusterau cymunedol a safleoedd strategol. Mae'n bosibl y bydd ganddynt bolisïau penodol ar iechyd a llesiant, neu mae'n bosibl bod cyfeiriad at iechyd yn treiddio polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (gan ddefnyddio dull Iechyd ym mhob Polisi).

Mae awdurdodau cynllunio hefyd yn cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) perthnasol sy'n rhoi mwy o fanylion am bolisïau'r Cynllun Dablygu Lleol, ac a allai fod yn arbennig o berthnasol i fwrdd iechyd gyfeirio atynt mewn ymateb, er enghraifft teithio llesol, tai, cyfraniadau datblygwyr, mannau gwyrdd neu ardaloedd chwarae.

**Prosesau ymgynghori cyn ymgeisio (PAC)**

Mae cam cyn ymgeisio cais cynllunio yn gyfle delfrydol i drafod goblygiadau datblygiad ar iechyd a llesiant. Mae ymgynghori cyn ymgeisio yn ofyniad statudol ar gyfer datblygiadau mawr[1]. Mae datblygwyr yn dilyn canllawiau ar ba brosiectau y mae angen iddynt gael proses PAC a sut y dylent ymgynghori'n effeithiol. Nid yw Byrddau Iechyd yn ymgynghorai statudol ym mhroses y PAC, ond efallai y bydd modd cynnal trafodaethau gyda datblygwyr ynghylch darparu gwasanaethau gofal iechyd mewn datblygiad newydd a'r effaith ar lefel y boblogaeth ar iechyd a llesiant i'r gymuned. Gall byrddau iechyd gymryd rhan ym mhroses y PAC os cânt weld hysbysiadau o'r PAC, neu os cânt wybod amdano neu os gofynnir iddynt gymryd rhan yn y broses. Mae'r cam cyn ymgeisio hefyd yn amser delfrydol i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o'r datblygiad (gweler yr adran isod).

**Ymateb cydgysylltiedig gan fwrdd iechyd lleol i geisiadau cynllunio**

Dylai sylwadau ar gais cynllunio gan fwrdd iechyd gynnwys ymatebion y gwasanaeth gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd fel ei gilydd, gan ymdrin â materion o ddarparu seilwaith i gefnogi poblogaeth i'r penderfynyddion ehangach sy'n effeithio ar iechyd a llesiant.

Gellir cydgysylltu’r ymateb gan unrhyw swyddog yn y bwrdd iechyd/ tîm iechyd y cyhoedd lleol sydd â chylch gwaith yn ymwneud â chynllunio ac iechyd, ond dylai swyddogion priodol sy'n gyfrifol am y materion uchod eu datblygu ar y cyd.

**Templed ymateb i geisiadau cynllunio (atodiad 1)**


Gall byrddau iechyd ddefnyddio'r templed i ymateb i gais cynllunio, a'i fwriad yw darparu canllawiau ar y math o ymateb a'r dystiolaeth y gellir ei defnyddio ar gyfer gwahanol ddatblygiadau. Bydd defnyddio adrannau’r templed yn dibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n cael ei ystyried, ac felly gellir ei ddiwygio yn ôl y gofyn.

Mae'n bwysig cwblhau adran grynodeb y templed fel y gall y swyddog cynllunio sy'n derbyn yr argymhellion eu cael mewn un lle.

[1] Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu - https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/llawlyfr-rheoli-datblygu-heb-atodiadau_0.pdf

**Ymateb Iechyd y Cyhoedd Lleol**

Nid gan ymddygiad unigolion yn unig y mae iechyd a llesiant y boblogaeth yn cael eu heffeithio, ond gan benderfynyddion ehangach megis yr amgylchedd adeiledig a naturiol, tai a strydoedd, fel y dangosir isod:




Mae'n bwysig y cynhwysir cyfranogiad iechyd y cyhoedd mewn prosesau a gweithdrefnau o'r broses gynllunio i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn gallu rhoi sylwadau ar faterion sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y cyhoedd.

Mae gan bob bwrdd iechyd dîm iechyd y cyhoedd lleol, a Chyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd sy'n gyfrifol am iechyd y boblogaeth leol ac sy'n darparu cymorth iechyd y cyhoedd arbenigol. Mae timau iechyd y cyhoedd lleol yn cynllunio, datblygu, gweithredu a gwerthuso ystod eang o raglenni ym maes gwella iechyd, ac yn arwain y gwaith o gynhyrchu asesiadau o anghenion y boblogaeth leol.

Gall tîm iechyd y cyhoedd lleol ddarparu gwybodaeth arbenigol am statws iechyd cymuned leol, lefelau anghydraddoldeb iechyd ac amddifadedd, a darparu data am anghenion presennol iechyd y boblogaeth ac yn y dyfodol. Gallant ddarparu tystiolaeth ynghylch effaith yr amgylchedd ar iechyd a llesiant, a sut y gall cynllunio wella iechyd a llesiant.

**Gwasanaethau gofal iechyd lleol ac ymateb cynllunio strategol**

Mae gan fyrddau iechyd gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardal leol, ac felly maent yn chwarae rhan allweddol yn y broses gynllunio leol o ran gofynion gwasanaethau megis practisiau meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd, ysbytai a gwasanaethau gofal iechyd cymunedol. Dylent fod yn rhan o'r prosesau cynllunio yn ystod y cyfnod o gynhyrchu Cynlluniau Datblygu i sicrhau darpariaeth gwasanaethau a fydd yn diwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Dylid cynnwys byrddau iechyd hefyd wrth ymateb i geisiadau cynllunio lle mae goblygiadau i wasanaethau, er enghraifft, oherwydd cynnydd posibl yn y boblogaeth a fydd yn arwain yn uniongyrchol i bwysau ychwanegol ar y seilwaith gofal iechyd.

Nid yw'n briodol i fwrdd iechyd wneud sylwadau wrth ymateb i gais cynllunio am faterion capasiti'r gweithlu mewn perthynas â datblygiad newydd gan nad yw'r rhain yn berthnasol i'r broses gynllunio. Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd yw darparu gwasanaethau ac ni ellir ei ddatrys drwy'r broses gynllunio. Mae'n briodol gwneud sylwadau os oes angen ystyried darparu seilwaith ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, er enghraifft byddai nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu cynnig yn gofyn am bractis meddyg teulu newydd, neu ymestyn neu uwchraddio adeiladau gwasanaethau eraill er mwyn darparu ar gyfer y cleifion newydd.

Mae'n bosibl y bydd bwrdd iechyd yn dymuno ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr (Adran 106 neu Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)) tuag at wella neu liniaru'r pwysau o ganlyniad i ddatblygiad mawr, a dylai'r bwrdd iechyd felly wneud sylwadau yn yr ymateb i'r cais cynllunio.

**Cyfraniadau datblygwyr/rhwymedigaethau cynllunio**

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu'r gweithdrefnau i awdurdod lleol sy'n cael cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at wrthbwyso unrhyw ganlyniadau andwyol datblygiad neu i ddarparu ar gyfer cyfleusterau a seilwaith lleol newydd, estynedig neu wedi'u huwchraddio. Fel arfer, bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n nodi sut y caiff cyfraniadau datblygwyr eu cyfrifo ac ym mha sefyllfaoedd y gellir gofyn amdanynt Mae'r cyfraniadau hyn naill ai drwy Gytundebau Ardoll Seilwaith Cymunedol neu Adran 106.

Gall Canllawiau Cynllunio Atodol cyfraniad datblygwr nodi y gellir gofyn am gyfraniadau datblygwr tuag at ddarparu gwasanaethau gofal iechyd lle na all adeiladau presennol ddiwallu'r angen am ofal iechyd a gynhyrchir gan ddatblygiad arfaethedig yn rhesymol a lle bydd y galw yn fwy na'r ddarpariaeth. Dylai'r Canllawiau Cynllunio Atodol amlinellu sut a phryd y byddai'r rhain yn cael eu ceisio, er enghraifft graddfa datblygiad preswyl newydd. Gallai cyfraniadau fod ar ffurf rhoddion, a gallai'r datblygwr ddarparu cyfleuster newydd ar y safle, neu gallent fod yn gyfraniad ariannol at uwchraddio neu estyniad o gyfleuster oddi ar y safle.

Dylid trafod yr angen am gyfraniadau datblygwyr (fel yr amlinellir gan y Cynllun Datblygu Lleol) ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd gyda'r swyddog cynllunio sy'n delio â'r cais cynllunio, a dylid ei gynnwys yn yr ymateb gan y bwrdd iechyd ar y cais.

**Ymgyngoreion ychwanegol**

Wrth baratoi ymateb i gais cynllunio, yn dibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n cael ei gynnig, efallai y byddai'n briodol ymgynghori ag eraill i sicrhau ymateb cyson, ac i gael gwybodaeth ychwanegol. Ar lefel genedlaethol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu ymatebion i ymgynghoriadau drwy'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol ar faterion amgylcheddol, a gall Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru gynghori ar Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i gysylltu â sefydliadau eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio sut y gellir gwneud y gorau o'r canlyniadau, cyflawni blaenoriaethau traws-sector ac osgoi dyblygu.

Darperir Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd (EPHS) ar y cyd drwy Dîm Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddiaeth Peryglon Amgylcheddol, Cemegau ac Ymbelydredd Diogelwch Iechyd y DU (Cymru). Mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd yn ymgynghorai cenedlaethol ar gyfer ceisiadau cynllunio mawr

**Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol**

Darperir Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd (EPHS) ar y cyd drwy Dîm Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddiaeth Peryglon Amgylcheddol, Cemegau ac Ymbelydredd Diogelwch Iechyd y DU (Cymru). Mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd yn ymgynghorai cenedlaethol ar gyfer ceisiadau cynllunio mawr (ceisiadau lleol a chenedlaethol) mewn perthynas â materion iechyd cyhoeddus amgylcheddol, fel y gallant ddarparu ymateb uniongyrchol i geisiadau penodol (e.e. safleoedd gwaredu neu drosglwyddo gwastraff, ffermydd dofednod, safleoedd ynni a diwydiannol neu chwareli. Gall hyn fod yn ychwanegol at unrhyw ymateb y mae'r bwrdd iechyd yn ei gyflwyno.

Bydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yn anfon copi o unrhyw ymateb at fyrddau iechyd lleol, a dylid cysylltu â nhw ar gyfer unrhyw geisiadau cynllunio mawr perthnasol. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yn darparu asesiadau risg iechyd cyhoeddus amgylcheddol arbenigol ar risgiau iechyd gwirioneddol neu bosibl gan amlygiadau amgylcheddol i gemegau, sŵn a digwyddiadau amgylcheddol eithafol fel llifogydd. Gellir cynnwys elfennau ehangach eraill o iechyd yr amgylchedd megis ansawdd aer safleoedd datblygu eraill yn yr ymateb hwn.

Er mwyn sicrhau cysondeb yr ymateb ac i groeswirio ymatebion, dylid cysylltu â'r tîm drwy'r cyfeiriadau e-bost canlynol:

ChemicalsCardiff@phe.gov.uk

PublicHealth.Environment@wales.nhs.uk

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymgyngoreion statudol yn y system gynllunio, gan ddarparu ymateb sy'n seiliedig ar dystiolaeth i geisiadau cynllunio ynghylch effaith datblygiad ar yr amgylchedd, tra hefyd yn amlygu rôl bwysig yr amgylchedd ar iechyd a llesiant. Mae CNC yn cyd-gynhyrchu Datganiadau Ardal sy'n ystyriaethau perthnasol ar gyfer cynllunio ac yn rhoi cyfle i ymgorffori a chefnogi tystiolaeth iechyd y cyhoedd ochr yn ochr â materion a chyfleoedd amgylcheddol mewn cais cynllunio.

**Y broses ar gyfer ymateb (gweler Atodiad 2)**

**Derbyn cais cynllunio i roi sylwadau arno**

Gellir anfon llythyr at unigolyn enwebedig mewn bwrdd iechyd (er enghraifft Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd), neu i mewnflwch penodol os oes un wedi'i drefnu at y diben hwn, yn gwahodd sylwadau ar gais cynllunio. Bydd y llythyr yn cynnwys dolen i'r wefan lle gellir dod o hyd i ddogfennau ceisiadau cynllunio.

Bydd y llythyr yn nodi'r cyfnod amser ar gyfer ymatebion.

Unwaith y bydd hyn yn dod i law, dylai'r swyddog arweiniol ddilyn y broses yn Atodiad 2 i gwblhau'r ymateb.

**Rhestrau wythnosol o geisiadau cynllunio**

Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn cyhoeddi rhestr wythnosol o geisiadau. Gellid anfon y rhestr at y swyddog arweiniol yn y bwrdd iechyd i graffu arni am unrhyw geisiadau a allai fod â goblygiadau i iechyd y boblogaeth neu ar gyfer darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd. Gall y bwrdd iechyd wneud sylwadau ar y rhain os ydynt yn berthnasol. Argymhellir bod cyswllt yn cael ei wneud yn gyntaf gyda'r swyddog cynllunio sy'n delio â'r cais i gadarnhau'r amserlen ar gyfer ymatebion ac i drafod unrhyw faterion penodol ar gyfer y datblygiad.

**Dogfennau cais cynllunio i'w hadolygu**

Yn aml, mae nifer o ddogfennau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gais cynllunio yn cael eu huwchlwytho i wefan awdurdod cynllunio, ac ni fydd pob un o'r rhain yn berthnasol i fwrdd iechyd eu hadolygu er mwyn ymateb.

Dylid rhoi sylw i'r dogfennau allweddol canlynol:

- Ffurflen gais: mae hyn yn rhoi'r wybodaeth am y cais a defnydd presennol y safle.
- Adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio: bydd hwn yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r broses ymgynghori.
- Datganiad Dylunio a Mynediad (DAS): bydd Datganiad Dylunio a Mynediad yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o geisiadau. Mae hyn yn rhoi manylion a chyd-destun sut y dyluniwyd y datblygiad, y broses a ddilynwyd, a sut mae'r datblygiad yn cyd-fynd â pholisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn amlinellu'r dyluniad arfaethedig ar gyfer y datblygiad, cynlluniau safle, sydd fel arfer yn cynnwys nifer y cartrefi arfaethedig, natur y datblygiad, llwybrau teithio a mynediad i mewn i'r safle. Mae hon yn ddogfen allweddol i fyrddau iechyd roi sylw iddi wrth ymateb.
- Asesiad o'r effaith amgylcheddol (EIA): os bydd angen cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer cais, gall gynnwys asesiad ar yr effeithiau cadarnhaol a

negyddol ar iechyd a llesiant y gymuned, a dylai'r datblygwr/ ymgynghorydd sy'n paratoi'r asesiad o’r effaith amgylcheddol fod wedi cyfeirio at bolisïau cyfredol ac asesiadau anghenion y boblogaeth. Gall yr Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol gynnwys adran ar effeithiau iechyd.

**Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (HIA)**

Ar hyn o bryd, gellir ystyried effeithiau datblygiad ar iechyd fel rhan o asesiad o'r effaith amgylcheddol, fel uchod. Dylid darparu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i gyd-fynd ag unrhyw gais am waith glo brig, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. Gallai cais am unrhyw fath o ddatblygiad gynnwys Asesiad o’r Effaith ar Iechyd ar wahân fel un o'r dogfennau cynllunio, ac os felly dylid ystyried hyn wrth ddatblygu ymateb y bwrdd iechyd. Bydd rheoliadau yn cael eu cyflwyno'n fuan yng Nghymru o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a allai wneud Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn orfodol ar gyfer polisïau, cynlluniau neu raglenni penodol.

Gallai gynnwys rhai ceisiadau cynllunio ar raddfa fawr, ond bydd manylion y ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, dylid ystyried Asesiad o’r Effaith ar Iechyd ar gyfer ceisiadau datblygu mawr fel arfer gorau. Mae canllawiau ar gynnal Asesiad o’r Effaith ar Iechyd ar gael ar wefan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU).

**Math o ddatblygiad**

Bydd natur y datblygiad arfaethedig yn pennu sut y caiff y templed ymateb ei gwblhau a faint ohono sydd angen ei ddefnyddio, er enghraifft:

- Gallai datblygiad preswyl mawr (gellir diffinio mawr yn lleol o ran nifer y cartrefi) arwain at oblygiadau sylweddol i'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd drwy gyflwyno poblogaethau newydd o gleifion. Gallai hefyd gael effaith ar iechyd a llesiant y preswylwyr newydd o ran y ffordd y caiff ei gynllunio a'i ddylunio, ond hefyd ar y gymuned leol o'i chwmpas. Gallai'r rhan fwyaf os nad pob un o adrannau’r templed fod yn berthnasol ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.
- Gallai datblygiad defnydd cymysg (preswyl, manwerthu, bwyd a diod, hamdden, cyflogaeth ac ati) gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y gymuned leol o ran darparu gwasanaethau, y mathau o gyflogaeth, hygyrchedd neu'r math o fwyd a diod (er enghraifft, gallai siopau cludfwyd poeth gael effaith negyddol). Gallai elfennau iechyd y cyhoedd yr ymateb fod yn fwyaf perthnasol ar gyfer y math hwn o gais, yn dibynnu a oes yna elfen breswyl fawr yn y datblygiad.
- Gall cais am gludfwyd poeth fod yn destun ymateb gan fwrdd iechyd o ran y goblygiadau negyddol i iechyd y gymuned leol, gan ystyried lefelau gordewdra a statws iechyd y boblogaeth. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar bolisïau'r awdurdod cynllunio lleol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n anelu yn benodol at reoli nifer a/neu leoliad siopau cludfwyd poeth.

**Cyfeirio polisïau allweddol yn y Cynllun Datblygu Lleol**

Wrth ymateb i gais cynllunio, mae'n bwysig cyfeirio at bolisïau perthnasol yng Nghymru'r Dyfodol, cynllun cenedlaethol 2040, y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Datblygu Lleol, ac unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol perthnasol. Mae angen i unrhyw ymateb gyd-fynd â'r polisïau. Er enghraifft, os ydych yn gwneud sylwadau ar ddarpariaeth seilwaith y gwasanaeth gofal iechyd, dylid cyfeirio at y polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cwmpasu gwasanaethau gofal iechyd. Os oes polisi (ac o bosibl Canllawiau Cynllunio Atodol) ynghylch teithio llesol, dylid cyfeirio at hyn mewn unrhyw sylwadau ynghylch hygyrchedd datblygiad ar gyfer cerdded a beicio, ac ati.